
Estyn

estyn.llyw.cymru
estyn.gov.wales

# Ysgolion Ffederal

## Nodweddion cyffredin ffedereiddio effeithiol

Gorffennaf 2019



**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael eu hariannu gan, awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion pob oed
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau annibynnol arbenigol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **1** |
| **Cefndir a chrynodeb o ymchwil addysg** | **1** |
| **Prif ganfyddiadau** | **5** |
| **Argymhellion** | **8** |
| **1 Profiad y dysgwr mewn ysgol ffederal** | **9** |
| **2 Pam mae ysgolion yn ffedereiddio** | **11** |
| **3 Y broses i sefydlu ffederasiwn** | **14** |
| **4 Gwireddu manteision ffedereiddio** | **20** |
| **Atodiad 1: Cwestiynau hunanwerthuso ar gyfer ffedereiddio** | **24** |
| **Atodiad 2: Sut mae Estyn yn arolygu ffederasiynau** | **25** |
| **Atodiad 3: Sail y dystiolaeth** | **26** |
| **Atodiad 4: Rhestr o ffederasiynau yng Nghymru** | **29** |
| **Geirfa** | **31** |
| **Cyfeiriadau** | **33** |

## Cyflwyniad

Ysgrifennir yr adroddiad hwn i ymateb i gais am gyngor gan y Gweinidog Addysg yn ei llythyr cylch gwaith at Estyn ar gyfer 2018-2019. Mae’r adroddiad yn archwilio nodweddion ffedereiddio effeithiol. Mae’n nodi’r amodau, y prosesau a’r trefniadau sy’n arwain at ffederasiynau effeithiol, ac yn eu cynnal. Mae hefyd yn ystyried yr anawsterau posibl i ffederasiynau ac yn archwilio’r rhesymau pam nad yw ffederasiynau bob amser yn llwyddiannus. Mae’n nodi enghreifftiau o arfer effeithiol lle mae cyrff llywodraethol ac awdurdodau lleol wedi ffedereiddio’n llwyddiannus.


Yn yr adroddiad hwn, mae’r term ‘ffedereiddio’ yn cyfeirio at drefniant ffurfiol a chyfreithiol lle bydd nifer o ysgolion yn rhannu trefniadau llywodraethu a bydd ganddynt un corff llywodraethol. Mae’r adroddiad cylch gwaith yn ystyried y ffederasiynau hyn a sefydlwyd yn gyfreithlon, ac mewn ychydig iawn o achosion, yr ysgolion hynny sydd wrthi ar hyn o bryd mewn proses ymgynghori ffurfiol yn arwain at ffedereiddio. Nid yw’n ystyried yr ysgolion hynny mewn trefniadau partneriaeth anffurfiol na’r ‘ffederasiynau meddal’ honedig. Mae’r adroddiad wedi’i fwriadu ar gyfer Llywodraeth Cymru, penaethiaid, llywodraethwyr, aelodau etholedig awdurdodau lleol a swyddogion.

Mae’r adroddiad wedi’i seilio ar ymweliadau ag amrywiaeth o ysgolion ffederal, gan ystyried ffactorau economaidd gymdeithasol ac ieithyddol, lleoliadau daearyddol, y math o ffederasiwn, a’i faint. Mae’r adroddiad hefyd yn defnyddio tystiolaeth a gasglwyd trwy arolygiadau, holiaduron a chyfweliadau dros y ffôn gyda chynrychiolwyr awdurdodau lleol, a thrafodaethau yn fforwm rhanddeiliaid Estyn ar gyfer ysgolion ffederal.

## Cefndir a chrynodeb o ymchwil addysg

Mae Ffedereiddio yng Nghymru yn gytundeb ffurfiol a chyfreithiol lle bydd rhwng dwy a chwe ysgol yn rhannu trefniadau llywodraethu, a bydd ganddynt un corff llywodraethol. Gall Ffederasiynau gynnwys cyfuniad o ysgolion a gynhelir sydd naill ai’n ysgolion meithrin, cynradd, arbennig neu uwchradd. O dan Reoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2014 (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2014), gall ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir neu ysgolion gwirfoddol a reolir ddim ond ffedereiddio ag ysgolion o’r un categori neu gydag ysgolion sydd â statws ymddiriedolaeth elusennol neu ethos crefyddol tebyg.

**Ffigur 1: Canran yr ysgolion a gynhelir mewn ffederasiynau[1], 2012 i 2018**




Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD), Llywodraeth Cymru


[1]Canran yr ysgolion a oedd mewn ffederasiynau ar ddiwrnod cyfrifiad ysgolion ym mis Ionawr ym mhob blwyddyn

Mae nifer yr ysgolion ffederal wedi tyfu'n raddol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae 31 o ffederasiynau ledled Cymru ar hyn o bryd, sy'n cynrychioli tua 5% o'r holl ysgolion. Mae bron pob un o'r rhain yn cynnwys ffederasiynau ysgolion cynradd. Fodd bynnag, mae ychydig o eithriadau, sef:

- Ysgolion Ffederal Dyffryn Afan Uchaf: un ysgol uwchradd a phedair ysgol gynradd
- Ffederasiwn Cwlwm: un ysgol gynradd ac un ysgol uwchradd
- Ffederasiwn Bryngwyn a Glan Y Môr: dwy ysgol uwchradd
- Campws Dysgu'r Gorllewin: tair ysgol arbennig

Mae bron pob un o'r ffederasiynau ysgolion cynradd yn cynnwys dwy neu dair ysgol. O'r 72 ysgol sy'n rhan o ffederasiwn, mae gan lawer ohonynt lai na 150 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae gan ryw draean o ysgolion sy'n gweithio mewn ffederasiwn lai na 60 o ddisgyblion. Mae tua hanner ohonynt yn ysgolion cyfrwng Cymraeg, a thua 7% yn ysgolion ffydd.

**Ffigur 2: Cyfran yr ysgolion ffederal sy'n gyfrwng Cymraeg neu'n gyfrwng Saesneg**




Bu ffedereiddio ysgolion yn ffurfiol yn bosibl yng Nghymru er 2010. Canfu adolygiad o gyflwyno gwasanaethau addysg yng Nghymru yn y dyfodol (Hill, 2013, tt. 9-10) 'achos cryf am resymau addysgol a chost effeithiolrwydd fel ei gilydd i fwyafrif o'r ysgolion yng Nghymru, ac o bosibl pob un ohonynt, fod yn rhan o ffederasiwn ffurfiol neu glwstwr cadarn â llywodraethu ar y cyd sy'n cael ei arwain gan arweinydd gweithredol'. Yn 2014, cyhoeddwyd Rheoliadau Ffedereiddio (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2014), a roddodd fecanwaith i awdurdodau lleol ffedereiddio ysgolion yng Nghymru. Cadarnhaodd canllawiau ategol (Llywodraeth Cymru, 2014) amcan y polisi i hyrwyddo ffedereiddio ysgolion yng Nghymru, gan ddyfynnu fel rhan o'r rhesymeg werthusiad cadarnhaol o effaith ysgolion ffederal yn Lloegr (Ofsted, 2011).

Canfu astudiaeth gan Chapman a Muijs (2013) fod perthynas gadarnhaol rhwng aelodaeth ffederasiwn a chyrhaeddiad disgyblion mewn ysgolion uwchradd, er y canfuwyd bod hyn wedi dod i'r amlwg yn y blynyddoedd yn dilyn ffedereiddio. Amcangyfrifodd astudiaeth ymchwil gynharach (Chapman, Muijs a McAllister, 2011) fod oedi o ddwy i bedair blynedd o adeg ffedereiddio i berfformiad yn rhagori ar berfformiad cyfoedion nad ydynt mewn ffederasiwn yn Lloegr. Awgrymodd y dystiolaeth fod yr effaith ar ddeilliannau myfyrwyr yn fwy lle roedd y ffedereiddio wedi partneru ysgol â pherfformiad uchel ag ysgol â pherfformiad isel, gan alluogi diwylliannau ac arferion i drosglwyddo o'r ysgol 'gryfach' i'r ysgol 'wannach', a bod symud staff rhwng ysgolion wedi arwain at ddealltwriaeth ar y cyd o ddulliau addysgu a dysgu, yn ogystal ag arbedion maint gwell. Roedd yr effaith ar ddeilliannau hefyd yn fwy lle roedd y cydweithio yn ffurfiol yn hytrach nag yn anffurfiol. Canfu Muijs (2015) hefyd fod perthynas gadarnhaol rhwng cydweithio a chyrhaeddiad disgyblion mewn ysgolion cynradd, er bod graddfa'r astudiaeth yn fach. Yma, roedd llwyddiant wedi'i nodweddu gan allu'r ysgolion i ymgymryd ag ymyriadau dwys a oedd yn canolbwyntio ar brosesau allweddol yn gysylltiedig â deilliannau myfyrwyr: addysgu a dysgu, asesu ac arweinyddiaeth gref.

Canfu adolygiad o dystiolaeth ar gydweithio effeithiol rhwng ysgolion ar gyfer gwella ysgolion (Armstrong, 2015) mai prin yw'r astudiaethau a oedd wedi archwilio'r cysylltiad rhwng cydweithio a deilliannau myfyrwyr. Pan oedd deilliannau yn ffocws uniongyrchol i'r ymchwil, roedd canfyddiadau'n gymysg, gan gyfrannu at ddiffyg tystiolaeth empirig yn cysylltu cyrhaeddiad myfyrwyr yn argyhoeddiadol â chydweithio.

Mae llenyddiaeth ymchwil bresennol yn amlygu nifer o ffactorau pwysig sy'n gysylltiedig â chydweithio effeithiol rhwng ysgolion yn fwy cyffredinol. Ymhlith y rhai a ddyfynnwyd amlaf, mae arweinyddiaeth gref, datblygu set glir o nodau ar y cyd, cyfathrebu clir, a sensitifrwydd i gyd-destun lleol (Armstrong, 2015). Y rhwystrau a ddyfynnwyd amlaf rhag cydweithio effeithiol rhwng ysgolion oedd bygythiadau i ymreolaeth ysgolion (Chapman et al., 2011), anghydbwysedd canfyddedig o ran pŵer rhwng ysgolion (Lindsay et al., 2007), a baich gwaith ychwanegol a phwysau ychwanegol o ran amser (Aiston et al., 2002).

Mae'r llenyddiaeth ymchwil yn creu darlun amrywiol o gydweithio rhwng ysgolion, ac mae'r canllawiau a gyhoeddwyd yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2014, tud. 11) yn nodi yn yr un modd: 'bydd dyluniad neu waith gweithredol ffederasiwn yn dibynnu'n gyfan gwbl ar amgylchiadau'r ysgolion unigol a ffocws neu ddiben eu […] gwaith gyda'i gilydd'. Fodd bynnag, mae'r canllawiau a'r dystiolaeth ymchwil yn nodi'n glir mai'r prif amcan yw buddiannau i ddysgwyr. Mae adroddiad thematig Estyn (2015) ar gydweithio rhwng ysgolion hefyd yn awgrymu bod partneriaethau'n gweithio orau pan fydd ffocws clir ar wella deilliannau ar gyfer disgyblion. Mae'r bylchau mewn gwybodaeth a nodwyd yn y llenyddiaeth ymchwil bresennol ar gydweithio rhwng ysgolion, a'r pwyslais cynyddol ar 'systemau hunanwella ysgolion' (Hadfield ac Ainscow, 2018, tud. 443), yn gwneud yn glir yr angen am ragor o ymchwil annibynnol i'r amodau ar gyfer ffedereiddio llwyddiannus, yn enwedig o ran yr hyn sy'n gweithio, yr hyn nad yw'n gweithio a pham.

Yn ddiweddar, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (2018) ei chynllun gweithredu addysg wledig. Mae hwn yn ymrwymo i ymagwedd genedlaethol at ysgolion bach ac ysgolion gwledig, ac yn nodi y gallai ffedereiddio fod yn gyfrwng priodol ar gyfer sicrhau cynaliadwyedd darpariaeth mewn lleoliadau gwledig.

# Prif ganfyddiadau

## Profiad y dysgwr mewn ysgol ffederal

1 Mae'r rhan fwyaf o ffederasiynau yn defnyddio arbedion maint i ariannu gwelliannau i'r cwricwlwm, fel ymweliadau preswyl ac ymwelwyr allanol. Mewn ychydig o achosion, mae ffederasiynau'n defnyddio arbenigedd staff i gefnogi cynnydd grwpiau penodol o ddysgwyr, fel y rheiny ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw uwch arweinwyr yn gwneud defnydd digonol o arbenigedd staff ar draws y ffederasiwn i wella profiadau i bob disgybl a sicrhau cynnydd grwpiau penodol o ddisgyblion, fel y rhai mwy abl neu'r rheiny a allai dangyflawni oherwydd amddifadedd.

2 Mewn lleiafrif o ysgolion ffederal, mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion gydweithio â'u cyfoedion mewn ysgolion eraill. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar fedrau cymdeithasol disgyblion a'u synnwyr o les. Bron ym mhob achos, caiff ffedereiddio effaith gadarnhaol ar y profiad pontio i lawer o ddisgyblion, wrth iddynt symud o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 3. Mae hyn yn arbennig o gryf mewn ffederasiynau sy'n cynnwys ysgol uwchradd ac ysgolion cynradd clwstwr.

## Pam mae ysgolion yn ffedereiddio

3 Yn y rhan fwyaf o achosion, mae cyrff llywodraethol ac awdurdodau lleol yn creu ffederasiwn i gynyddu'r tebygolrwydd o sicrhau arweinyddiaeth effeithiol a hyfywedd a chynaliadwyedd hirdymor ysgolion. Mae hyn yn arbennig o wir am ysgolion bach, y rheiny mewn lleoliadau gwledig neu leoliadau sy'n ynysig yn ddaearyddol, ac ysgolion cyfrwng Cymraeg lle mae recriwtio penaethiaid yn hynod heriol. Yn yr achosion hyn, gall ffedereiddio wella pa mor ddeniadol yw swydd pennaeth trwy fuddion fel cynnig mwy o gyflog, llai o ymrwymiad addysgu, a charfan ehangach o staff.

4 Er ei fod yn ffactor pwysig, anaml y gwelir mai arbedion o ran cyllidebau yw'r unig gymhelliant dros ffedereiddio. Maent fel arfer yn eilradd i faterion yn gysylltiedig â recriwtio penaethiaid a chynaliadwyedd y ddarpariaeth.

5 Mewn ychydig o achosion, mae awdurdodau lleol yn defnyddio ffedereiddio mewn ymgais i ysgogi gwelliant mewn ysgolion sy'n tanberfformio. Gwnânt hyn trwy gysylltu'r ysgol sy'n tanberfformio ag ysgolion cyfagos cryfach. Pan fydd hyn yn llwyddiannus, mae awdurdodau lleol a chyrff llywodraethol wedi sicrhau arweinyddiaeth gyffredinol effeithiol ar gyfer y ffedereiddio. Nid yw ffedereiddio ynddo'i hun yn sicrhau gwelliant mewn safonau addysgu a dysgu o reidrwydd.

6 Mae'r ffaith fod cydweithio effeithiol anffurfiol wedi bodoli rhwng ysgolion ymlaen llaw yn ysgogwr cryf o ran sicrhau llwyddiant ffedereiddio ffurfiol. Pan na fu trefniadau anffurfiol ar waith yn y cyfnod cyn ffedereiddio ffurfiol, mae arweinwyr llwyddiannus yn sicrhau bod cyfathrebu clir, gweledigaeth ar y cyd a sensitifrwydd i gyd-destunau lleol, o'r cychwyn.

7 Mae agosrwydd daearyddol ysgolion yn ystyriaeth bwysig pan fydd awdurdodau lleol

a chyrff llywodraethol yn ystyried ffedereiddio. Mae agosrwydd gwell yn caniatàu ar gyfer cydweithio mwy effeithiol ar bob lefel, yn enwedig o ran darparu cyfleoedd i ddisgyblion gydweithio.

## Y broses i sefydlu ffederasiwn

8 Pan fydd ffedereiddio yn fwyaf llwyddiannus, mae gan gyrff llywodraethol, uwch arweinwyr ac awdurdodau lleol weledigaeth glir o'r hyn y maent yn dymuno'i gyflawni trwy'r broses ffedereiddio. Mae eu gweledigaeth yn canolbwyntio'n graff ar ddeilliannau ar gyfer disgyblion. Maent yn eglur o'r cychwyn ynglŷn â'r hyn y mae'r ffederasiwn yn ei olygu a ddim yn ei olygu, ac maent yn cyfleu hyn yn glir i staff, rhieni a disgyblion. Yn yr achosion gorau, defnyddiant ffederasiynau presennol i ddangos y manteision posibl. Maent yn ymgysylltu â rhanddeiliaid mewn proses ymgynghori a chyd-greu dryloyw ac ystyrlon. Pan fydd y prosesau hyn yn effeithiol, mae ysgolion yn elwa ar fanteision ffedereiddio yn gynnar.

9 Yn yr achosion mwyaf llwyddiannus, mae gan awdurdodau lleol, cyrff llywodraethol ac uwch arweinwyr rôl allweddol mewn sicrhau eu bod yn rhoi pwys cyfartal i safbwyntiau rhieni, staff a disgyblion o bob un o gymunedau eu hysgol. Maent yn gofalu eu bod yn sicrhau cydbwysedd rhwng cynnal hunaniaeth pob ysgol unigol a datblygu synnwyr o gymuned ddysgu fwy, gyfunol.

10 Mewn ffederasiynau effeithiol, buan y mae cyrff llywodraethol yn sefydlu strwythurau arwain sy'n cefnogi eu gweledigaeth ar gyfer y ffederasiwn. Mae hyn yn cynnwys sicrhau trefniadau effeithiol ar gyfer arweinyddiaeth a rheolaeth pob ysgol yn absenoldeb y pennaeth.

11 Mae ansawdd y cymorth y mae awdurdodau lleol yn ei ddarparu i gyrff llywodraethol i'w cynorthwyo trwy'r broses ffedereiddio yn amrywiol. Yn yr achosion gorau, mae awdurdodau lleol yn sicrhau cymorth cyson ar draws yr holl ysgolion yn y ffederasiwn, er enghraifft trwy ddefnyddio'r un ymgynghorydd her i bob ysgol.

## Gwireddu manteision ffedereiddio

12 Mewn ffederasiynau llwyddiannus, mae arweinwyr yn gwella darpariaeth a deilliannau ar gyfer disgyblion trwy rannu adnoddau, systemau ac arfer dda ar draws ysgolion. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o achosion, nid yw ysgolion ffederal yn defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn effeithiol i gefnogi cydweithio, ac yn enwedig cydweithio ymhlith disgyblion, ar draws safleoedd ysgol.

13 Yn y rhan fwyaf o achosion, pan geir llywodraethu da a phennaeth gweithredol effeithiol, caiff ffedereiddio effaith gadarnhaol ar allu arwain ar bob lefel. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd i benaethiaid ymgysylltu â dysgu proffesiynol a fydd yn eu paratoi i arwain ffederasiwn neu i uwch arweinwyr a staff ysgolion ffederal rwydweithio a rhannu arfer.

14 Yn aml, mae ffedereiddio yn arwain at arbedion o ran cyllidebau i ysgolion. Pan fydd capasiti yn caniatáu, mae cynyddu rôl staff gweinyddol neu gyflogi rheolwr busnes i oruchwylio cyllidebau ar draws y ffederasiwn yn aml yn arwain at ragor o arbedion ac effeithlonrwydd. Fodd bynnag, mewn ffederasiynau sy'n cynnwys ysgolion llai, gall rheoli dwy neu dair cyllideb ar wahân a chydgyfrannu adnoddau fod yn her i gyrff llywodraethol a phenaethiaid.

## Argymhellion

**Dylai ysgolion ffederal:**

A1 Weithio gyda rhanddeiliaid o'r cychwyn i sefydlu gweledigaeth glir ar gyfer y ffederasiwn, sy'n canolbwyntio ar wella deilliannau ar gyfer disgyblion

A2 Datblygu strwythurau arwain ar gyfer y ffederasiwn, gan gynnwys rhywfaint o amser heb addysgu ar gyfer uwch arweinydd ar bob safle, i gefnogi gweithredu effeithiol o ddydd i ddydd a chyfathrebu da o fewn ysgolion, a rhyngddynt

A3 Defnyddio prosesau hunanwerthuso i nodi sut gellir defnyddio medrau ac arbenigedd staff i wella profiadau dysgu ar gyfer disgyblion ar draws y ffederasiwn

A4 Datblygu'r defnydd o TGCh i gefnogi cydweithio gan staff a disgyblion

**Dylai ysgolion sy'n ystyried ffedereiddio hefyd:**

A5 Werthuso effaith bosibl ffedereiddio ar safonau a lles disgyblion

A6 Nodi graddau ac effeithiolrwydd unrhyw gydweithio sy'n bodoli'n barod

A7 Nodi a gwerthuso effaith bosibl unrhyw rwystrau rhag ffedereiddio effeithiol, fel pellter daearyddol

**Dylai awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol:**

A8 Ddarparu cyfleoedd dysgu proffesiynol perthnasol ar gyfer uwch arweinwyr ysgolion ffederal

A9 Adolygu eu trefniadau cyllid er mwyn rhoi'r hyblygrwydd i ysgolion ffederal gydgyfrannu eu hadnoddau'n haws

A10 Rhannu arfer dda o ran ffedereiddio effeithiol gydag ysgolion wrth iddynt ystyried ymgymryd â'r broses ffedereiddio

A11 Sicrhau cymorth cyson ar gyfer yr holl ysgolion o fewn ffederasiwn, trwy ddefnyddio'r un ymgynghorydd her ar gyfer pob ysgol, er enghraifft

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

A12 Archwilio trefniadau i helpu ysgolion ffederal i gydgyfrannu eu hadnoddau

## 1. Profiad y dysgwr mewn ysgol ffederal

15 Yn y ffederasiynau mwyaf effeithiol a sefydledig prin, mae arweinwyr yn gwneud y defnydd gorau o'r corff staff mwy i gyflwyno cwricwlwm a phrofiadau dysgu sydd wedi'u teilwra'n benodol i anghenion unigol y disgyblion. Maent yn manteisio ar gryfderau a medrau pob athro unigol ac yn eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol ar draws y ffederasiwn. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd gwell mewn safonau a lles nag oeddent cyn ffedereiddio.

16 Mewn ychydig o achosion, mae carfan ehangach o arbenigedd addysgu, er enghraifft lle mae'r ffederasiwn ar draws sectorau, yn galluogi ysgolion i herio disgyblion mwy abl ar lefelau sy'n gweddu i'w hanghenion. Er enghraifft, mae addysgu sy'n benodol i bwnc gan staff ysgolion uwchradd mewn celf a cherddoriaeth yn galluogi disgyblion talentog yn y sector cynradd i weithio ar lefel a fyddai fel arall yn anodd ei chyflawni. Yn yr un modd, mae arbenigedd mewn darpariaeth ADY yn caniatàu ar gyfer gwybodaeth 'fewnol' fwy arbenigol sy'n galluogi disgyblion ag anawsterau dysgu penodol i wneud cynnydd gwell. Er enghraifft, mae uwch arweinwyr yn defnyddio cynorthwyydd addysgu ar draws pob ysgol mewn ffederasiwn i dargedu medrau darllen sylfaenol disgyblion.

17 Fodd bynnag, nid yw llawer o ffederasiynau, yn enwedig y rheiny a sefydlwyd yn ddiweddar, yn manteisio ddigon ar arbenigedd aelodau staff i wella profiadau dysgu ar gyfer yr holl ddisgyblion a sicrhau cynnydd grwpiau o ddisgyblion, fel y rheiny a allai fod yn tangyflawni oherwydd amddifadedd.

18 Mae llawer o uwch arweinwyr yn ceisio manteisio ar arbedion maint yn deillio o ffedereiddio i ddarparu gwelliannau i'r cwricwlwm ar gyfer disgyblion, a allai fod yn anodd eu fforddio ar gyfer un darparwr, yn enwedig ysgol fach. Mae hyn yn galluogi disgyblion i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon, diwylliannol a chymdeithasol nad ydynt ar gael neu sy'n anos eu hwyluso, mewn ysgolion llai. Er enghraifft, mae disgyblion o ysgolion ar draws ffederasiwn yn cymryd rhan mewn chwaraeon tîm, perfformiadau ar y cyd a theithiau preswyl. Maent yn rhannu cost ymweliadau neu ymwelwyr i ddarparu profiadau dysgu ychwanegol ar gyfer disgyblion sy'n helpu cyfoethogi eu cwricwlwm. Mae ychydig o ffederasiynau yn prynu gwasanaethau athrawon arbenigol y maent yn eu defnyddio ar draws pob un o'r ysgolion, fel cyflogi athro iwcalili i weithio gyda disgyblion mewn grŵp blwyddyn penodol. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar fedrau corfforol, creadigol a chymdeithasol y rhan fwyaf o ddisgyblion, yn ogystal â'u synnwyr cyffredinol o les.

19 Mae ffedereiddio yn cael effaith gadarnhaol ar brofiadau pontio i lawer o ddisgyblion mewn ysgolion cynradd ffederal. Pan fydd trefniadau ffedereiddio wedi'u sefydlu'n dda a disgyblion yn cael cyfleoedd rheolaidd i weithio a chwarae gyda'i gilydd, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo eu bod wedi'u paratoi'n well ar gyfer trosglwyddo o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 3. Mae cymdeithasu â grŵp ehangach o ddisgyblion yn rhoi mwy o ymdeimlad o hyder iddynt. Mae hyn yn arbennig o berthnasol mewn ysgolion bach lle gallai disgyblion fod yn rhan o garfan o bedwar neu bum disgybl yn unig.

20 Mewn ffederasiynau ar draws sectorau sy'n cynnwys ysgol uwchradd ac ysgolion cynradd, mae'r effaith ar les disgyblion wrth iddynt symud i'r cam nesaf yn eu dysgu yn hynod amlwg. Yn yr achosion hyn, nid yn unig mae gan ddisgyblion grŵp cymdeithasol ehangach i'w cynorthwyo wrth iddynt symud, maent hefyd yn fwy cyfarwydd â'u hathrawon a'u hamgylchedd dysgu newydd. Yn yr un modd, mae staff yn yr ysgol sy'n eu derbyn yn meddu ar fwy o wybodaeth am ddisgyblion a'u cyd-destunau teuluol. Mae hyn yn lleihau effaith y trosglwyddo ar gyfradd y cynnydd a wna disgyblion yng nghyfnod allweddol 3.

21 Mewn ychydig iawn o ffederasiynau, mae uwch arweinwyr yn manteisio ar ystod ehangach o brofiad ac arbenigedd i ddefnyddio staff ar draws y ffederasiwn i wella cyfleoedd dysgu, mewn gwersi ac fel rhan o weithgareddau allgwricwlaidd. Er enghraifft, gallai fod gan staff fedrau mewn ieithoedd, celf a cherddoriaeth y gallant eu rhannu ar draws y ffederasiwn. Fodd bynnag, cyfyngedig yw'r dystiolaeth o hyn mewn llawer o ffederasiynau. Ar hyn o bryd, nid oes digon o uwch arweinwyr yn manteisio'n llawn ar ehangder arbenigedd y staff yn eu hysgolion i ddarparu profiadau dysgu estynedig ar gyfer disgyblion. Mewn lleiafrif o ffederasiynau, mae uwch arweinwyr yn defnyddio arbenigedd staff sydd â medrau Cymraeg cryf i wella medrau pobl eraill a chodi safonau disgyblion ar draws y ffederasiwn.

22 Er bod rhywfaint o ymchwil (Chapman, Muijs a McAllister, 2011) yn awgrymu bod perthynas gadarnhaol rhwng aelodaeth ffederasiynau a chyrhaeddiad disgyblion mewn ysgolion uwchradd, at ei gilydd, mae'r effaith ar safonau sy'n deillio o ffedereiddio yn aneglur. Er bod tystiolaeth yn awgrymu bod uwch arweinwyr yn amgyffred bod manteision i ddeilliannau disgyblion yn gyffredinol o ganlyniad i ffedereiddio, prin yw'r effaith empirig i gefnogi hyn.

## 2. Pam mae ysgolion yn ffedereiddio

23 Yn y rhan fwyaf o achosion, mae cyrff llywodraethol ac awdurdodau lleol yn creu ffederasiwn i sicrhau arweinyddiaeth effeithiol a hyfywedd a chynaliadwyedd hirdymor ysgolion. Mewn llawer o achosion, awdurdodau lleol yw symbylwyr cychwynnol y broses hon, a byddant yn cysylltu â chyrff llywodraethol lle maent yn credu y gallai ffedereiddio gynnig ateb i'r heriau o ran recriwtio penaethiaid neu hyfywedd darpariaeth sy'n deillio o ostyngiad yn niferoedd y disgyblion. Pan fydd hanes o gydweithio rhwng ysgolion, mae cyrff llywodraethol eu hunain yn aml yn dechrau'r broses ffedereiddio gydag arweiniad gan awdurdodau lleol. Anaml y bydd awdurdodau lleol yn gorfodi ysgolion i ffedereiddio heb gefnogaeth gan bob un o'r cyrff llywodraethol.

24 Gall cyrff llywodraethol ysgolion bach ei chael yn anodd llenwi swyddi penaethiaid. Mae'r cyflog is sy'n gysylltiedig â swydd pennaeth ysgol fach, tebygolrwydd o ymrwymiad addysgu heriol, a diffyg cymorth ar gael gan dîm rheolwyr canol, yn ei gwneud yn llai deniadol i ddarpar ymgeiswyr. Mae hyn yn arbennig o wir am ysgolion mewn lleoliadau gwledig neu'r rheiny sy'n ynysig yn ddaearyddol. Gall ffedereiddio wella pa mor ddeniadol yw swydd pennaeth, gan gynnig mwy o gyflog, llai o ymrwymiad addysgu, a mwy o gyfleoedd i ddatblygu gallu arweinyddiaeth ar draws yr ysgol. Mae hyn yn denu carfan ehangach o ymgeiswyr, gan gynnwys y rheiny sydd â rhywfaint o brofiad blaenorol o swydd pennaeth neu sy'n dymuno rôl arwain fwy heriol.

25 Yn y rhan fwyaf o achosion, mae ffedereiddio ysgolion bach gwledig yn digwydd fesul dipyn ac yn gynyddol, gyda ffedereiddio dwy ysgol i gychwyn yn ymestyn i dair ysgol neu fwy dros gyfnod. Bydd hyn fel arfer yn digwydd fel y daw swyddi penaethiaid yn wag ac mae cydweithio â ffederasiynau lleol sefydledig yn cynnig ateb i recriwtio penaethiaid. Mewn ychydig o achosion, mae awdurdodau lleol yn defnyddio dull cynlluniedig, hirdymor o ddod ag ysgolion i'r ffederasiwn wrth iddynt ragweld y bydd penaethiaid yn ymddeol neu'n symud i swyddi newydd.

26 Mae cyrff llywodraethol ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion ffydd yn wynebu her ychwanegol, sef fod carfan y darpar ymgeiswyr sydd â'r medrau iaith angenrheidiol yn llai nag ydyw ar gyfer ysgolion eraill. Eto, mae cyrff llywodraethol ac awdurdodau lleol yn defnyddio ffedereiddio fel cyfrwng i fynd i'r afael â'r mater hwn mewn ymgais i ddenu carfan ehangach o ymgeiswyr.

27 Gall arbedion i gyllidebau trwy arweinyddiaeth ar y cyd a chydgyfrannu adnoddau fod yn gymhelliant ar gyfer ffedereiddio. Er enghraifft, mae rhannu cost rolau arwain, fel rolau'r pennaeth neu'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol, yn gyfle i gyflawni arbedion ariannol. Mewn llawer o achosion, mae arweinwyr ysgolion ffederal yn cyflogi staff gweinyddol i weithio ar draws y ffederasiwn. Mewn ychydig o achosion, mae hyn yn cynnwys bwrsar sydd â chyfrifoldebau am reoli cyllidebau'r ysgolion. Gall y trefniant hwn gynnig arbedion maint posibl trwy swmp-brynu neu dendro am gontractau ar y cyd, fel cynnal a chadw tir. Fodd bynnag, anaml y gwelir mai

arbedion o ran cyllidebau yw'r unig gymhelliant dros ffedereiddio. Maent fel arfer yn eilradd i faterion yn gysylltiedig â recriwtio penaethiaid a chynaliadwyedd y ddarpariaeth.

28 Pan fo awdurdodau lleol yn pryderu am berfformiad ysgol, gallent ystyried ffedereiddio ag ysgol gyfagos sy'n perfformio'n dda fel dull o wella safonau. Mae cymorth rhwng ysgolion yn gweithio orau pan fydd angen wedi'i nodi'n glir, mae ffocws ar wella deilliannau ar gyfer disgyblion ac mae'r perthnasoedd rhwng ysgolion yn gyfartal, yn ymddiriedus, yn agored a thryloyw (Estyn, 2015). Nid yw ffedereiddio ar ei ben ei hun yn ysgogi gwelliannau mewn addysgu a dysgu, oni bai fod uwch arweinwyr yn meddu ar y medrau i ddatblygu ymrwymiad ar y ddwy ochr i wella ysgolion ymhlith pob un o'r staff ar draws y ffederasiwn.

**Cameo: Ysgolion cynradd Cwmfelin-fach ac Ynys-ddu – symud o gydweithio i ffedereiddio**

Mae ysgolion cynradd Cwmfelin-fach ac Ynys-ddu wedi rhannu pennaeth am y pum mlynedd ddiwethaf. Mae'r ddwy ysgol yn cydweithio ar lawer o feysydd o'u gwaith ac yn cyflawni arbedion ariannol trwy rannu cyflog y pennaeth, swmp-brynu a thendro am gontractau ar y cyd. Maent yn rhannu agweddau ar eu harfer fwyaf effeithiol, gan gynnwys defnyddio cryfderau penodol medrau disgyblion ar draws y ddwy ysgol. Er enghraifft, mae disgyblion sydd â medrau cryf mewn codio yn gweithredu fel llysgenhadon dysgu yn eu hysgol eu hunain ac yn eu hysgol bartner i helpu datblygu galluoedd eu cyfoedion.

Mae gan y ddwy ysgol hanes cryf o weithio mewn partneriaeth yn effeithiol. O ganlyniad, mae manteision cydweithio eisoes yn glir i staff, rhieni a llywodraethwyr. Fel trefniant anffurfiol, gall y naill ysgol neu'r llall ddewis optio allan o'r cytundeb ar unrhyw adeg gydag ychydig iawn o rybudd. O ganlyniad i'r effaith gadarnhaol ar ddarpariaeth, ac er mwyn ffurfioli a sicrhau'r trefniant, awgrymodd yr awdurdod lleol i gyrff llywodraethol y ddwy ysgol y dylid ffedereiddio. Mae hyn yn symleiddio gwaith y pennaeth wrth iddynt ymgysylltu ac ymgynghori ag un corff llywodraethol yn unig, sy'n goruchwylio gwaith y ddwy ysgol. Mae'r broses hon yn mynd yn ei blaen, a nod yr awdurdod lleol yw sefydlu'r ffederasiwn yn ffurfol o fis Medi 2019.

29 Mewn achosion lle mae'r cymhelliant i ffedereiddio yn deillio o hanes cryf o gydweithio, mae ffedereiddio yn fwy tebygol o lwyddo. Mewn ysgolion sydd wedi rhannu pennaeth am flynyddoedd lawer, neu ble mae hanes cryf o gydweithio ymhlith staff, gall y broses ffedereiddio gryfhau systemau a phrosesau ar y cyd sy'n bodoli'n barod. Yn yr achosion hyn, mae cyrff llywodraethol yn aml yn dechrau ffedereiddio er mwyn ffurfioli trefniadau ar gyfer cydweithio, sicrhau cynaliadwyedd y bartneriaeth a lleihau baich gwaith y pennaeth.

30 Ym mhob achos lle mae ysgolion wedi ystyried ffedereiddio, bu pellter daearyddol ac amser teithio rhwng yr ysgolion yn ffactorau pwysig wrth bennu hyfywedd y cynigion. Mae agosrwydd rhwng ysgolion yn lleihau'r pwysau ar uwch arweinwyr a staff eraill sy'n gweithio ar fwy nag un safle. Hefyd, mae'n caniatàu cydweithio mwy effeithiol rhwng disgyblion, yn enwedig os yw'r ysgolion o fewn pellter cerdded i'w gilydd ac nad yw hyn yn golygu costau cludiant ychwanegol. Mewn ychydig iawn o achosion, gall ffederasiynau mwy ddefnyddio arbedion o ran cyllidebau sy'n deillio o ffedereiddio i fynd i'r afael â chostau cludiant, er enghraifft trwy brynu bws mini ar gyfer y ffederasiwn.

**Cwestiynau i gyrff llywodraethol ac awdurdodau lleol eu hystyried cyn cynnig ffedereiddio**

- Beth yw nodau allweddol y ffederasiwn?
- A fydd ffedereiddio yn gwella gallu arwain ar bob lefel?
- Sut bydd ffedereiddio yn cefnogi gwelliant mewn safonau addysgu a dysgu?
- A oes yna hanes cryf o gydweithio i uwch arweinwyr adeiladu arno?
- A fydd y pellterau daearyddol rhwng ysgolion yn cynorthwyo neu'n rhwystro cydweithio?
- A fydd ffedereiddio yn sicrhau arbedion ariannol sy'n helpu cefnogi cynaliadwyedd y ddarpariaeth yn yr ardal?

# 3. Y broses i sefydlu ffederasiwn

## Creu ffederasiwn

31 Yn yr achosion mwyaf llwyddiannus, mae cyrff llywodraethol, uwch arweinwyr a'r awdurdod lleol yn glir ynglŷn â'r hyn y mae arnynt eisiau ei gyflawni trwy ffedereiddio. Maent yn ymgysylltu'n ystyrlon gyda rhieni, disgyblion, y gymuned leol, staff a llywodraethwyr yn gynnar i sicrhau bod pawb yn deall y broses ffedereiddio, a'r hyn y mae'n ei olygu i bob ysgol. Maent yn rhoi arweiniad clir i randdeiliaid ar sut gallant fynegi eu safbwyntiau ac yn ymateb yn briodol wrth fynd i'r afael ag unrhyw bryderon. Er enghraifft, mae llywodraethwyr a'r awdurdod lleol yn trefnu un cyfarfod gyda rhieni o bob ysgol i amlinellu eu cynigion ac ateb cwestiynau. Maent yn amlygu ffederasiynau sy'n bodoli eisoes fel enghraifft ymarferol o sut bydd y strwythur newydd yn gweithredu. Ym mhob achos lle mae ffedereiddio yn llwyddiannus, mae'r awdurdod lleol a'r cyrff llywodraethol yn rhoi darlun didwyll o'r hyn y mae ffedereiddio yn ei olygu, ac yn trin unrhyw bryderon o ddifri. Pan fydd y broses ffedereiddio yn fwyaf llwyddiannus, mae'n broses o ymgynghori a chyd-greu, gyda rhanddeiliaid yn cymryd rôl weithredol mewn ffurfio'r weledigaeth hirdymor ar gyfer y ffederasiwn.

32 Pan fydd cyrff llywodraethol ac awdurdodau lleol yn effeithiol o ran sefydlu a rhannu eu gweledigaeth, mae ysgolion yn elwa ar fanteision ffedereiddio yn gyflymach, fel rhannu arfer effeithiol a chyflawni arbedion ariannol. I'r gwrthwyneb, pan nad ydynt yn gwneud hyn yn dda, mae tuedd i rieni a staff fod yn amheus ynglŷn â'r canlyniadau bwriadedig, ac o ganlyniad, nid ydynt yn ymgysylltu cystal â'r broses. Er enghraifft, gallai staff fod yn llai parod i arsylwi a rhannu arfer dda gyda chydweithwyr ar draws y ffederasiwn, neu gallai rhieni fod yn llai cefnogol i uwch arweinwyr ac yn llai tebygol o gymryd rhan mewn mentrau newydd, a'u cefnogi.

33 Pan fydd y broses ffedereiddio yn fwyaf effeithiol, mae staff ym mhob ysgol yn ymgysylltu'n llawn ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir a chynnar o'r goblygiadau i'w rolau a'u cyfrifoldebau rheoli llinell. Maent yn deall manteision y trefniadau ffedereiddio o ran sefydlogrwydd a chynaliadwyedd, a'r canlyniadau cadarnhaol sy'n deillio o rannu arbenigedd ac adnoddau.

34 Mae gan yr awdurdod lleol a'r cyrff llywodraethol rôl bwysig o ran sicrhau eu bod yn rhoi pwys cyfartal i safbwyntiau rhieni o bob ysgol, eu bod yn ystyried y rhain yn ofalus ac yn gweithredu yn unol â nhw yn ystyrlon. Pan nad yw hyn yn wir, mae rhieni a rhanddeiliaid o'r farn fod un ysgol yn 'cymryd drosodd' ysgol arall. Mae hyn yn broblem benodol lle mae un ysgol yn y ffederasiwn yr ystyrir ei bod yn perfformio'n dda, tra bod ysgolion eraill yn destun pryder.

**Cameo: Awdurdod lleol Sir Gaerfyrddin – sicrhau ffedereiddio llwyddiannus trwy ymgynghori a chyd-greu**

Mae awdurdod lleol Sir Gaerfyrddin wedi goruchwylio ffurfio pum ffederasiwn yn y blynyddoedd diwethaf. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae hyn yn cynnwys cysylltu ysgolion cynradd bach â'i gilydd, ond mae hefyd yn cynnwys ffedereiddio dwy ysgol uwchradd. Mae'r awdurdod lleol wedi datblygu dull ar y cyd o ffedereiddio sy'n canolbwyntio'n gryf ar ymgysylltu â rhanddeiliaid. Mae'r manylion am y prosesau yn amrywio yn unol â nodweddion yr ysgolion a'u cymunedau, ond mae camau a gweithredoedd allweddol yn cynnwys:

- Sefydlu grŵp llywio'r ffederasiwn yn gynnar, sy'n cynnwys uwch arweinwyr a llywodraethwyr o bob ysgol, uwch swyddogion yr awdurdod lleol ac ymgynghorwyr her yr ysgolion. Mae'r grŵp yn gosod y cyfeiriad strategol ar gyfer y broses ffedereiddio ac yn goruchwylio ymgynghori â rhanddeiliaid.

- Llunio dogfennau ymgynghori sy'n amlinellu'r weledigaeth ar gyfer y ffedereiddio. Mae'r rhain yn canolbwyntio'n eglur ar effaith ffedereiddio ar addysgu a dysgu ar gyfer pob cymuned ysgol.

- Trefnu ystod o sesiynau gweithdy a deialog ymgynghorol ar gyfer rhieni, staff a disgyblion. Arweinir hyn gan swyddogion yr awdurdod lleol, llywodraethwyr ac uwch arweinwyr, ac mae'n rhoi cyfle i esbonio'r rhesymeg dros y ffedereiddio, yn mynd i'r afael â chamsyniadau ac yn casglu barn rhanddeiliaid. Er enghraifft, mae'n galluogi uwch arweinwyr a llywodraethwyr i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon ymhlith rhieni a staff am absenoldeb y pennaeth pan fyddant yn gweithio mewn canolfannau ysgol eraill.

- Mae ffurfio'r cynnig terfynol ar gyfer ffedereiddio yn seiliedig ar ganlyniad ymgynghoriadau. Mae'r awdurdod lleol yn rhoi pwyslais cryf ar ddefnyddio canlyniadau ymgysylltu â rhanddeiliaid i lywio'i gynlluniau terfynol. Mae hyn yn helpu sicrhau bod ffedereiddio yn cael ei dderbyn yn gadarnhaol ym mhob cymuned ysgol.

- Cyhoeddi cynigion ffedereiddio terfynol ar gyfer ymgynghori ffurfiol gyda rhieni, staff, undebau llafur a'r gymuned ehangach gan gadw at ofynion rheoliadau statudol.

- Monitro ac adolygu cynnydd gan y corff llywodraethol ffederal yn ystod camau cynnar y ffedereiddio, gyda chefnogaeth agos gan swyddogion yr awdurdod lleol.

### Datblygu'r ffederasiwn

35 Mewn llawer o ffederasiynau, mae'r corff llywodraethol yn penodi pennaeth ar draws ffederasiwn, neu bennaeth 'gweithredol'. Yn aml, pennaeth un o'r ysgolion presennol o fewn y ffederasiwn yw hwn. Mae penaethiaid gweithredol effeithiol yn y sefyllfa hon yn gweithio'n galed i sicrhau eu bod yn cael eu gweld fel penaethiaid sy'n ystyried cryfderau, heriau ac anghenion pob ysgol. Er enghraifft, maent yn sicrhau eu bod yn nodi ac yn rhannu arfer dda o bob ysgol yn y ffederasiwn yn hytrach na dim ond yn rheiny sy'n perfformio'n dda neu'r ysgol yr oedd ganddynt gyfrifoldeb amdani o'r blaen.

**Cameo: Ysgolion Ffederal Dyffryn Afan Uchaf – dosbarthu arweinyddiaeth i gefnogi ansawdd yr addysgu a'r dysgu**

Ffederasiwn mawr yn cynnwys Ysgol Gyfun Cymer Afan, ac ysgolion cynradd Pen Afan, Cymer Afan, Glyncorrwg a Chroeserw yw Dyffryn Afan Uchaf. Sefydlwyd y ffederasiwn yn 2013 pan ddechreuwyd yr awdurdod lleol, pan gododd swydd wag ar gyfer y pennaeth yn Ysgol Gynradd Pen Afan. Roedd yr awdurdod lleol yn gweld ffedereiddio fel cyfrwng i sicrhau cynaliadwyedd y ddarpariaeth yn yr ardal. Ehangwyd y ffederasiwn dros y tair blynedd nesaf wrth i ysgolion cynradd eraill yn Nyffryn Afan Uchaf ymuno.

Mae'r strwythur arweinyddiaeth yn cynnwys pennaeth gweithredol ar gyfer y ffederasiwn cyfan gyda dau arweinydd sector yn goruchwylio gwaith yr ysgol uwchradd a'r ysgolion cynradd. Mae llywodraethwyr wedi sefydlu 'arweinwyr dysgu' ym mhob ysgool gynradd, sy'n uwch arweinwyr sy'n cael amser heb addysgu, ac sy'n cymryd cyfrifoldeb am gynnal pob ysgol o ddydd i ddydd. Maent yn gweithredu fel yr unigolion cyswllt cyntaf ar gyfer rhieni, staff a disgyblion. Trwy ddull 'rheoli matrics', mae ganddynt gyfrifoldeb hefyd am agweddau ar addysgu a dysgu ar draws pob un o'r ysgolion cynradd. Er enghraifft, mae gan yr arweinydd dysgu ar gyfer Ysgol Gynradd Pen Afan gyfrifoldeb hefyd am ansawdd yr addysgu a'r dysgu mewn dosbarthiadau meithrin a derbyn ar draws y ffederasiwn. O ganlyniad, mae staff, rhieni a disgyblion yn teimlo'n hyderus fod capasiti digonol i ddelio ag unrhyw broblemau sy'n codi, a bod uwch arweinwyr mewn sefyllfa dda i nodi a rhannu enghreifftiau o arfer dda ar draws y ffederasiwn, yn ogystal â gallu mynd i'r afael ag unrhyw berfformiad gwannach.

Mae rhannu cost uwch arweinwyr a defnyddio rheolwr cyllidebau ar draws y ffederasiwn yn helpu cyflawni arbedion ariannol, er enghraifft trwy brynu hyfforddiant ar y cyd i gefnogi dull newydd o addysgu mathemateg a phrynu system ddiogelu electronig ar draws y ffederasiwn.

36 Yn y rhan fwyaf o ffederasiynau llwyddiannus, mae uwch arweinwyr a llywodraethwyr yn cydnabod pwysigrwydd cynnal hunaniaethau unigol pob ysgol, tra'n creu yn sensitif synnwyr ar y cyd o hunaniaeth fel ffederasiwn dros gyfnod: gan barhau i fod yn rhan o'u cymuned tra'n sefydlu ymdeimlad o fod yn rhan o rywbeth mwy. Er enghraifft, mae llawer o ddisgyblion mewn ysgolion ffederal yn disgrifio'r modd y maent yn teimlo'n rhan o'u hysgol unigol yn ystod gweithgareddau, ac yn rhan o'r sefydliad mwy wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau gydag ysgolion eraill yn y ffederasiwn, fel teithiau preswyl, perfformiadau ar y cyd neu Eisteddfodau.

37 Pryder rheolaidd am ffedereiddio i rieni, a staff a disgyblion i raddau llai, yw'r diffyg pennaeth parhaol ar y safle. Eu hamgyffrediad nhw yw nid oes rhywun yn yr ysgol sydd â'r profiad, yr arbenigedd a'r amser i ddelio â materion penodol fel y maent yn codi, neu i ganolbwyntio ar sicrhau ansawdd y ddarpariaeth yn yr ysgol o ddydd i ddydd. Er enghraifft, mewn ychydig o ffederasiynau, mae rhieni wedi mynegi pryderon i ddechrau na fyddai uwch aelod o staff priodol ar gael i siarad â rhieni pan fydd ganddynt bryderon neu i ddelio ag unrhyw broblemau arwyddocaol yn ymwneud ag ymddygiad. Mewn llawer o achosion, mae cyrff llywodraethol yn mynd i'r afael â'r mater hwn yn dda trwy sicrhau bod uwch arweinydd o bob ysgol yn cael digon o amser heb addysgu i ymgymryd â'u cyfrifoldebau arwain a rheoli. Mae'r amser ychwanegol hwn yn eu galluogi i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau, a monitro a helpu gwella ansawdd yr addysgu a'r dysgu hefyd.

38 Mewn ffederasiynau llwyddiannus, mae awdurdodau lleol yn goruchwylio diddymu cyrff llywodraethol ysgolion unigol a sefydlu corff llywodraethol ffederal yn sensitif. Yn yr achosion hyn, bydd cynrychiolaeth gyfartal o bob ysgol a'u cyrff llywodraethol gwreiddiol ar gorff llywodraethol y ffederasiwn newydd, ac yn cynnwys amrywiaeth eang o fedrau, profiad ac arbenigedd. Yn y ffederasiynau mwyaf llwyddiannus, mae llywodraethwyr yn gweithio gydag uwch arweinwyr a'r awdurdod lleol yn fedrus ac yn sensitif i sicrhau'r canlyniad hwn. Mewn ychydig o ffederasiynau, mae llywodraethwyr yn archwilio medrau'r aelodau i sicrhau bod gan y corff llywodraethol ffederal y capasiti i gefnogi gwaith y ffederasiwn. Pan fydd cyrff llywodraethol yn gweithredu yn unol â chanlyniadau archwiliad, maent yn sicrhau cyfleoedd dysgu i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau yn eu medrau. Mae hyn yn cryfhau eu rôl wrth gefnogi ffedereiddio llwyddiannus.

39 Yn y ffederasiynau mwyaf llwyddiannus, mae arweinwyr yn amlygu llais y disgybl yn ystyriaeth bwysig. Mae arweinwyr yn sicrhau ar adeg gynnar bod disgyblion yn datblygu dealltwriaeth dda o'r broses, eu rhan ynddi a'r goblygiadau iddynt. Mae arweinwyr yn cael amcan o safbwyntiau disgyblion ac yn sicrhau eu bod yn llywio agweddau ar y ffederasiwn, er enghraifft trwy greu cyfleoedd ar gyfer cyfarfodydd cyngor ysgol ar y cyd. Yn yr achosion gorau, mae uwch arweinwyr yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion o'r gwahanol ysgolion weithio gyda'i gilydd i fynegi eu safbwyntiau. Maent yn ymgysylltu â nhw wrth ffurfio'r weledigaeth ar gyfer y ffederasiwn newydd, y maent yn ei rhannu â phob un o'r disgyblion trwy gyfarfodydd a gwasanaethau pellach. Mewn rhai achosion, mae uwch arweinwyr yn ennyn diddordeb disgyblion mewn mynegi'r weledigaeth ar gyfer y ffederasiwn, er enghraifft trwy weithio gyda nhw i ddylunio logo sy'n cynrychioli nodweddion holl gymunedau'r ffederasiwn.

40 Bron ym mhob achos, nid yw'r broses ffedereiddio yn tarfu ar ysgolion yn ystod y cyfnod pontio o ran canolbwyntio ar gyflawni safonau uchel ac addysgu da. Mae'r ysgolion yn sicrhau nad yw'r daith tuag at ffedereiddio yn eu hatal rhag gwneud gwelliannau i addysgeg nac i'r cwricwlwm. Mae'r blaenoriaethau hyn yn helpu sicrhau sylfaen gref ar gyfer y ffederasiwn i rannu arfer dda, ac adeiladu arni.

**Nodweddion proses ffedereiddio effeithiol**

Mae cyrff llywodraethol ac awdurdodau lleol:

- Yn sefydlu, o gyfnod cynnar, weledigaeth glir ar gyfer y ffederasiwn sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau ar gyfer dysgwyr
- Yn gweithio'n effeithiol gyda'r holl randdeiliaid, gan gynnwys rhieni, disgyblion a staff o'r holl ysgolion i ffurfio eu gweledigaeth a'u nodau
- Yn sicrhau bod pennaeth gweithredol effeithiol a gwybodus yn cael ei benodi
- Yn sensitif i gyd-destun lleol pob cymuned, gan geisio cynnal hunaniaeth pob ysgol tra'n datblygu hunaniaeth ar y cyd fel ffederasiwn
- Yn glir ynghylch ystyr ffedereiddio, y broses a'r goblygiadau i bob ysgol
- Yn defnyddio ffederasiynau presennol fel astudiaethau achos i amlygu arfer dda
- Yn sicrhau bod cynrychiolaeth gyfartal o bob ysgol ar y corff llywodraethol ffederal

41 Mae ansawdd y cymorth a ddarperir gan awdurdodau lleol i ysgolion yn ystod y broses ffedereiddio yn amrywiol ledled Cymru. Pan geir ffedereiddio llwyddiannus, mae'r awdurdod lleol yn cynorthwyo ysgolion yn dda o'r cychwyn. Mae gan swyddogion awdurdod lleol rôl allweddol o ran sicrhau bod rhanddeiliaid yn ymwybodol o ofynion y broses. Defnyddiant eu gwybodaeth am arfer dda i sicrhau trosglwyddo esmwyth i ffedereiddio. Pan fydd awdurdodau lleol yn fwyaf llwyddiannus o ran cefnogi ffedereiddio ysgolion, maent yn mesur ei effaith ar ansawdd y ddarpariaeth a deilliannau ar gyfer disgyblion, ac yn defnyddio'r gwersi y maent wedi eu dysgu i wella eu cefnogaeth ar gyfer ysgolion eraill sy'n ymgymryd â'r broses hon. Mae darparu'r un ymgynghorydd her ar gyfer pob ysgol o fewn ffederasiwn yn helpu datblygu dealltwriaeth yr awdurdod lleol a'r consortiwm rhanbarthol o'r cryfderau, y gwendidau a'r heriau y mae pob un o'r ysgolion yn eu hwynebu fel rhan o'r broses ffedereiddio. Mae'n sicrhau bod yr awdurdod lleol a'r consortiwm yn y sefyllfa orau i gynorthwyo uwch arweinwyr o ran nodi a rhannu meysydd cryfder a darparu cymorth allanol, lle bo angen.

42 Yn yr achosion prin lle bu ffedereiddio yn llai llwyddiannus, nid oes gan gyrff llywodraethol a'r awdurdod lleol weledigaeth glir ar gyfer y broses ffedereiddio na'i chanlyniad. Nid ydynt yn cyfathrebu'n dda â rhanddeiliaid, yn llwyddo i gael amcan o'u barn, nac yn sicrhau bod rhanddeiliaid o bob ysgol yn cael eu trin yn gyfartal. Pan nad yw ffedereiddio yn effeithiol, nid yw cyfansoddiad y corff llywodraethol newydd yn gydbwysedd o holl elfennau ei gymuned. Mewn ffederasiynau aflwyddiannus, mae uwch arweinwyr yn meddwl y bydd ffedereiddio, ar ei ben ei hun a heb unrhyw weithredu pellach, yn ysgogi gwelliannau i ansawdd yr addysgu a safonau.

## 4. Gwireddu manteision ffedereiddio

43 Mewn ysgolion sy’n cynnal ffederasiynau llwyddiannus, mae arweinwyr yn canolbwyntio’n graff ar nodi ble gallai arbedion a darpariaeth well godi dros gyfnod o rannu adnoddau, systemau, ac arfer. Defnyddiant gyfle ffedereiddio i ymestyn y strwythur arweinyddiaeth i ddatblygu profiad a gallu uwch arweinwyr ac arweinwyr canol, er enghraifft trwy roi cyfle i arweinwyr canol arwain timau mwy ar draws mwy nag un ysgol, a galluogi uwch arweinwyr i gymryd cyfrifoldeb am arwain a rheoli safle ysgol yn absenoldeb y pennaeth. Ym mhob achos, mae mwy o ddisgyblion a theuluoedd i benaethiaid gweithredol ymgyfarwyddo â nhw, o ganlyniad i ffedereiddio. Mae ychydig o benaethiaid gweithredol mewn ffederasiynau mwy yn awgrymu bod eu gwybodaeth am ddisgyblion unigol a’u cyd-destunau teuluol yn fwy cyfyngedig na’r hyn y gwnaethant ei brofi’n flaenorol fel pennaeth ysgol unigol. Ond yn y rhan fwyaf o achosion, maent yn lliniaru hyn yn dda trwy sefydlu strwythurau arwain lle mae uwch arweinwyr wedi’u henwi yn cymryd cyfrifoldeb bugeiliol am ddisgyblion o fewn ysgolion penodol.

44 Mae’r cyflymdra a’r graddau y mae ysgolion yn gwireddu manteision ffedereiddio yn dibynnu ar y broses ffedereiddio ac effeithiolrwydd uwch arweinwyr, yn enwedig y pennaeth gweithredol, i greu ethos o gydweithio. Yn yr achosion gorau, mae uwch arweinwyr yn mabwysiadu polisïau a systemau ar draws ysgolion i wella a safoni arfer ar draws y ffederasiwn. Mae’r effaith ar ansawdd y ddarpariaeth a deilliannau ar gyfer disgyblion yn debygol o fod yn fwy lle mae arweinyddiaeth yn gryf. Felly, mae penodi pennaeth gweithredol effeithiol sydd â’r medrau a’r profiad i arwain ffederasiwn yn ffactor allweddol wrth sicrhau ei lwyddiant. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, prin yw’r cyfleoedd i benaethiaid ymgymryd â dysgu proffesiynol a fydd yn eu paratoi ar gyfer bod yn bennaeth gweithredol, a phrin yw’r cyfleoedd i benaethiaid gweithredol neu’u staff rwydweithio ag ysgolion ffederal eraill ledled Cymru.

45 Mae’r cyrff llywodraethol ffederal mwyaf effeithiol yn sicrhau bod ganddynt gynrychiolaeth gyfartal o bob un o’u hysgolion. Maent yn creu ethos lle mae llywodraethwyr yn cydnabod eu cyfrifoldeb i ystyried buddiannau pob ysgol yn y ffederasiwn. Mae cyrff llywodraethol ffederal llwyddiannus yn mabwysiadu dull cadarn a chyfunol o arwain tra’n parchu a hyrwyddo cyd-destun ac anghenion unigol pob ysgol. Mae rheoliadau presennol yn ymwneud â chyfansoddiad ac aelodaeth cyrff llywodraethol yng Nghymru yn ei gwneud yn anodd sicrhau cynrychiolaeth gyfartal o bob math o lywodraethwyr o holl gymunedau ffederasiwn. Mae hyn yn arbennig o wir am ffederasiynau sy’n cynnwys sawl ysgol fach. Yn y sefyllfaoedd hyn, mae cyrff llywodraethol llwyddiannus yn ceisio goresgyn yr anawsterau hyn trwy gylchdroi cynrychiolaeth o athrawon-lywodraethwyr, er enghraifft, rhwng yr ysgol am gyfnod o flynyddoedd.

46 Gallai ffederasiwn o sawl ysgol lai arwain at ostyngiad sylweddol yn ymrwymiad addysgu’r pennaeth. Mewn llawer o achosion, mae hyn yn galluogi rôl y pennaeth i newid i rôl pennaeth nad yw’n addysgu, gan roi mwy o amser i benaethiaid ganolbwyntio ar wella safonau addysgu a dysgu. Yn yr enghreifftiau gorau, mae

arbedion maint yn galluogi llywodraethwyr i gynyddu rôl staff gweinyddol mewn rheoli materion cyllidebol, ac mewn gwella effeithlonrwydd penderfyniadau am wariant. Mewn ychydig o achosion, mewn ffederasiynau mwy, mae hyn yn cynnwys cyflogi rheolwr busnes sy'n goruchwylio cyllidebau pob un o'r ysgolion yn y ffederasiwn. Yn aml, mae hyn yn helpu nodi arbedion o ran cyllidebau, a gall arwain at arbedion sylweddol i ysgolion. Fodd bynnag, mewn ffederasiynau llai, lle nad oes capasiti i ymestyn cyfrifoldebau staff gweinyddol, gall rheoli cyllidebau dwy neu dair ysgol fod yn heriol i gyrff llywodraethol a phenaethiaid. Bron ym mhob ffederasiwn yng Nghymru, mae cyflogi pennaeth gweithredol yn lleihau gwariant cyflogres yn gyffredinol, gan fod cost un pennaeth gweithredol yn llai na chost gyfunol cyflogi penaethiaid ar wahân ar gyfer pob ysgol.

47 Mae ffedereiddio yn arwain at dimau mwy o athrawon a chynorthwywyr addysgu, ar y cyfan. Mewn ffederasiynau llwyddiannus, mae uwch arweinwyr yn defnyddio'r garfan ehangach hon o arbenigedd a phrofiad i ddatblygu cyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer pob un o'r staff trwy nodi a rhannu arfer dda. Er enghraifft, mae athrawon yn gweithio mewn grwpiau bach i wella eu harfer trwy broses arsylwi, myfyrio a mireinio. Mae hyn yn arbennig o ddefnyddiol mewn ffederasiynau ar draws sectorau pan fydd athrawon y cyfnod sylfaen, er enghraifft, yn rhannu agweddau ar eu harfer sy'n canolbwyntio ar y plentyn gyda chydweithwyr cyfnod allweddol 2 a 3, neu athrawon ysgolion uwchradd yn rhannu medrau sy'n benodol i bwnc mewn celf, dylunio a thechnoleg neu gerddoriaeth gyda'u cymheiriaid yn y sector cynradd.

48 Pan fydd y broses ffedereiddio wedi'i chwblhau, mae staff yn parhau i gael eu cyflogi gan eu hysgol unigol yn hytrach na'r ffederasiwn cyfan. Mewn ffederasiynau llwyddiannus, mae uwch arweinwyr yn gweithio'n sensitif gydag athrawon a chynorthwywyr addysgu i drafod eu lleoli ar draws ysgolion eraill, lle bo'n ymarferol. Er enghraifft, gallai athro gyflenwi yn ystod amser CPA (cynllunio, paratoi ac asesu) ar draws y ffederasiwn. Mewn ychydig o achosion, mae staff sydd â medrau cryf mewn meysydd penodol, er enghraifft yn y Gymraeg, yn gweithio gyda disgyblion ym mhob un o'r ysgolion mewn ffederasiwn. Yn y tymor hwy, mae uwch arweinwyr yn cyflogi staff a benodwyd yn ddiweddar fel cyflogeion yn y ffederasiwn yn hytrach nag o ysgolion penodol. Mae'r trefniant hwn yn golygu y gellir lleoli staff yn haws ar draws y ffederasiwn. Yn yr achosion hyn, mae uwch arweinwyr yn trefnu bod costau cyflogau yn cael eu rhannu rhwng cyllidebau ysgolion unigol, tra bod y cyflogai dan gontract i weithio i'r ffederasiwn cyfan. Fodd bynnag, mewn mwyafrif o ffederasiynau, nid yw uwch arweinwyr yn gwneud defnydd digonol o arbenigedd staff unigol i wella profiadau dysgu ar draws yr holl ysgolion o fewn y ffederasiwn.

49 Yn y rhan fwyaf o achosion, lle mae ffedereiddio yn cynnwys cyfuno ysgol sy'n perfformio'n dda ag un ysgol neu fwy sy'n achosi pryder, mae arweinwyr llwyddiannus yn defnyddio'r arfer dda mewn un ysgol i hyrwyddo gwelliannau yn ansawdd y ddarpariaeth, yr addysgu a'r dysgu ar draws y ffederasiwn. Yn benodol, pan fydd gwendidau mewn addysgu, mae arweinwyr effeithiol yn darparu cyfleoedd i staff ddysgu oddi wrth arfer yr athrawon a'r cynorthwywyr addysgu gorau. Er mwyn i'r mesurau hyn lwyddo, rhaid i uwch arweinwyr weithredu â sensitifrwydd i gyd-destun yr ysgol, ac addasu arfer i weddu i anghenion penodol disgyblion pob ysgol.

50 Dros gyfnod, mae trefniadau hunanwerthuso a gwella'r ysgolion o fewn ffederasiwn yn dechrau cysoni. Mae hyn yn helpu cefnogi datblygiad ansawdd yr addysgu a'r dysgu. O gychwyn y broses ffedereiddio, mae arweinwyr ysgol effeithiol yn chwilio am orgyffwrdd ym mlaenoriaethau eu hysgolion i ddod o hyd i ffyrdd cyffredin o fynd i'r afael â'r rhain trwy ddefnyddio arbenigedd staff neu drefnu cyfleoedd dysgu proffesiynol ar y cyd. Mewn ffederasiynau mwy sefydledig, yn aml, bydd hunanwerthuso a chynllunio gwelliant yn cyd-fynd yn agos â'r rhan fwyaf o gamau gwella ysgolion sy'n berthnasol i bob ysgol yn y ffederasiwn, gydag ychydig o flaenoriaethau sy'n benodol i bob ysgol. Mewn llawer o achosion, lle mae uwch arweinwyr yn sicrhau cyfleoedd da i staff feithrin eu gwybodaeth a'u profiad trwy arsylwi arfer o fewn y ffederasiwn ac ysgolion eraill, caiff ffedereiddio effaith gadarnhaol ar gywirdeb hunanwerthuso am fod gan bob un o'r staff ystod ehangach o arfer broffesiynol i fyfyrio arni. Mae hyn yn eu galluogi i farnu'n fwy cywir beth yw arfer effeithiol.

**Cameo: Ffederasiwn Ysgol Carwe, Ysgol Ponthenri ac Ysgol Gwynfryn – elwa i'r eithaf ar garfan ehangach o staff**

Sefydlodd Ysgol Carwe, Ysgol Ponthenri ac Ysgol Gwynfryn eu ffederasiwn yn 2012. Arolygodd Estyn bob un o'r tair ysgol ar y cyd ym mis Mawrth 2018.

Mae uwch arweinwyr wedi llwyddo i greu ethos o gydweithredu ar draws y tair ysgol. O ganlyniad, mae pob un o'r staff yn gweld eu hunain fel staff y ffederasiwn, yn hytrach na chyflogai ysgol benodol. Mae hyn yn golygu bod staff yn gallu, ac yn fodlon, addysgu ar fyr rybudd yn unrhyw un o'r ysgolion yn y ffederasiwn. Mae hyn yn lleihau unrhyw achos o darfu ar addysg disgyblion sy'n deillio o absenoldeb athro. Mae strwythur staffio'r ffederasiwn yn galluogi athrawon a chynorthwywyr i ddatblygu dealltwriaeth gadarn o waith pob un o'r tair ysgol. Mae arweinwyr a staff y ffederasiwn yn rhannu a datblygu eu gweledigaeth a'u nodau strategol gyda chymuned y ffederasiwn.

Mae gan y pennaeth a'r penaethiaid cynorthwyol fedrau arwain cryf. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ac maent yn cynorthwyo ac arwain staff eraill yn effeithiol i godi safonau a hyrwyddo lles disgyblion. Mae arweinyddiaeth gadarn ar draws y ffederasiwn wedi llwyddo i greu ethos o gydweithredu llwyddiannus ymhlith staff tair ysgol. Mae hyn yn cynnwys cydweithredu effeithiol wrth gynllunio, asesu a safoni ar y cyd fel un corff staff. Defnyddir rhwydwaith digidol Hwb yn dda i rannu dogfennau ar draws y ffederasiwn.

51 Yn y rhan fwyaf o ffederasiynau, mae ysgolion yn defnyddio TGCh yn briodol i gefnogi gweithio ar draws y ffederasiwn. Er enghraifft, mae llawer o ffederasiynau yn defnyddio gofod gweinydd a rennir i staff fynd at bolisïau, cynlluniau gwaith, a dogfennau eraill. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio'r e-bost yn dda i sicrhau cyfathrebu clir rhwng ysgolion, ac ar draws ysgolion. Mewn lleiafrif o ffederasiynau,

mae ysgolion yn defnyddio systemau electronig yn briodol i alluogi athrawon i gydweithio ar gynllunio gwersi a gweithgareddau.  Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o ffederasiynau yn defnyddio manteision technoleg ddigidol i gefnogi gweithio ar draws y ffederasiwn yn ddigonol.  Yn benodol, nid yw'r defnydd o TGCh i gefnogi cydweithio ymhlith disgyblion wedi'i ddatblygu'n ddigonol.  Er enghraifft, ychydig iawn o ffederasiynau sy'n galluogi disgyblion i weithio gyda'i gilydd trwy ddefnyddio dogfennau ar-lein ar y cyd neu fideo gynadledda.

52 Pan fydd ffedereiddio yn llai llwyddiannus, nid yw llywodraethwyr ac uwch arweinwyr yn elwa ar ystod ehangach o fedrau ac arbenigedd i nodi a rhannu arfer dda.  Nid ydynt yn gwerthuso anghenion gwella pob ysgol yn ddigonol, ac maent yn gorfodi systemau sy'n bodoli eisoes o un ysgol ar ysgolion eraill yn y ffederasiwn heb ystyried p'un a ydynt yn addas at eu diben.  Nid ydynt yn defnyddio arbedion maint i alluogi uwch arweinwyr i ganolbwyntio ar addysgu a dysgu, na galluogi arweinwyr canol i ddatblygu eu profiad.  Nid ydynt yn manteisio ar arbedion posibl o ran cyllidebau i wella ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion.

## Atodiad 1: Cwestiynau hunanwerthuso ar gyfer ffedereiddio

Wrth ymgymryd â'r broses ffedereiddio, dylai llywodraethwyr, yr awdurdod lleol a'r uwch arweinwyr ystyried y cwestiynau allweddol canlynol:

- A ydynt yn glir ynglŷn â nodau tymor hir y ffedereiddio a sut bydd y rhain yn sicrhau deilliannau da ar gyfer dysgwyr?
- Sut byddant yn gweithio gyda'r holl randdeiliaid, gan gynnwys rhieni, dysgwyr a staff o'r holl ysgolion, i ffurfio'r weledigaeth a'r nodau ar gyfer y ffedereiddio?
- Sut byddant yn sicrhau cydbwysedd rhwng cynnal hunaniaeth unigol pob ysgol a datblygu synnwyr o gymuned ddysgu fwy, gyfunol?
- Pa drefniadau y byddant yn eu rhoi ar waith i sicrhau bod rhanddeiliaid yn glir ynghylch ystyr ffedereiddio, y broses a'r goblygiadau i bob ysgol?
- Sut byddant yn defnyddio ffederasiynau presennol i ddangos arfer dda bresennol?
- A ydynt wedi ystyried llwyddiant unrhyw gydweithio blaenorol rhwng yr ysgolion?
- A ydynt wedi barnu p'un a yw'r ysgolion yn ddigon agos i gefnogi cydweithio effeithiol?
- Sut byddant yn defnyddio ffedereiddio i gynhyrchu effeithlonrwydd ariannol i wella deilliannau ar gyfer disgyblion?
- Sut byddant yn rhannu arfer dda bresennol o bob ysgol i gefnogi gwelliannau ysgol mewn safonau addysgu a dysgu?
- Sut byddant yn defnyddio'r cyfle yn sgil ffedereiddio i wella arweinyddiaeth ar bob lefel?
- Pa drefniadau y byddant yn eu rhoi ar waith i sicrhau bod pennaeth gweithredol effeithiol a gwybodus yn cael ei benodi?
- Sut bydd llywodraethwyr ac uwch arweinwyr yn sicrhau trefniadau effeithiol ar gyfer arweinyddiaeth a rheolaeth pob ysgol yn absenoldeb y pennaeth?

## Atodiad 2: Sut mae Estyn yn arolygu ffederasiynau

Yn ôl y gyfraith, mae'n ofynnol i Estyn arolygu ac adrodd ar bob ysgol unigol. I ysgolion sy'n gweithio mewn ffederasiwn, nod Estyn yw arolygu pob ysgol o fewn ffederasiwn ar yr un pryd gan ddefnyddio'r fframwaith arolygu cyffredin. Yn ystod yr arolygiadau hyn, mae arolygwyr yn debygol o arolygu gweithgareddau ar draws yr holl ysgolion o fewn ffederasiwn. Bydd pob ysgol o fewn ffederasiwn yn derbyn ei hadroddiad arolygu unigryw ei hun. Fodd bynnag, gallai rhai nodweddion fod yn gyffredin i'r ffederasiwn cyfan. Mae'n debygol y bydd adroddiadau arolygiad ar gyfer pob ysgol o fewn ffederasiwn yn cynnwys gwerthusiadau cyffredin ar gyfer arweinyddiaeth.

Gellir cael rhagor o arweiniad ar ddull Estyn o arolygu ffederasiynau ar wefan Estyn:

https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/When%20will%20the%20next%20school%20inspection%20take%20place%20-%20September%202017%20cy.pdf

## Atodiad 3: Sail y dystiolaeth

Mae’r canfyddiadau a’r argymhellion yn yr adroddiad hwn yn defnyddio:

- ystod o dystiolaeth arolygiadau ysgolion cynradd ac uwchradd
- ymweliadau ag ystod o ysgolion ffederal cynradd, uwchradd ac arbennig
- canlyniadau holiaduron a sgyrsiau dilynol dros y ffôn ag awdurdodau lleol
- presenoldeb mewn cyfarfod craffu ar addysg awdurdod lleol lle roedd cynigion am ffederasiwn yn cael eu hystyried
- tystiolaeth o gyfarfod rhanddeiliaid cenedlaethol gydag uwch arweinwyr o ysgolion ffederal
- adolygiad o lenyddiaeth

Dewiswyd ysgolion ar ôl ystyried eu cyd-destun ieithyddol, eu lleoliad daearyddol, y mathau o ysgolion yn y ffederasiwn a ffactorau economaidd gymdeithasol. Wrth ymweld ag ysgolion:

- bu arolygwyr yn cyfweld ag uwch arweinwyr o bob ysgol ym mhob ffederasiwn
- bu arolygwyr yn cael barn llywodraethwyr trwy gyfweld
- bu arolygwyr yn cyfweld ag athrawon a chynorthwywyr addysgu
- bu arolygwyr yn cyfweld â disgyblion i gasglu eu barn ar effaith ffedereiddio

**Ffederasiynau ac ysgolion yr ymwelwyd â nhw:**

Ysgol Gynradd Cwmaman, Rhondda Cynon Taf

Ffederasiwn Dyffryn Afan Uchaf, Castell-nedd Port Talbot
- Ysgol Gynradd Cymer Afan
- Ysgol Gynradd Glyncorrwg
- Ysgol Gynradd Croeserw
- Ysgol Gynradd Pen Afan
- Ysgol Gyfun Cymer Afan

Ffederasiwn Dyffryn Dyfrdwy, Wrecsam
- Ysgol Gynradd Sirol Froncysyllte
- Ysgol Gynradd Gymunedol Garth
- Ysgol Gynradd a Reolir yr Eglwys yng Nghymru Pentre

Ffederasiwn Ysgol Bro Alun ac Ysgol Plas Coch, Wrecsam
- Ysgol Plas Coch
- Ysgol Bro Alun

Ffederasiwn Ysgol Carwe, Ysgol Ponthenri ac Ysgol Gwynfryn, Sir Gaerfyrddin
- Ysgol Gynradd Gymunedol Gwynfryn
- Ysgol Gynradd Gymunedol Carwe
- Ysgol Gynradd Ponthenri

Campws Dysgu'r Gorllewin, Caerdydd
- Ysgol Uwchradd Woodlands
- Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn
- Ysgol Arbennig Riverbank

**Cyfranogwyr yn y fforwm rhanddeiliaid ysgolion ffederal:**

Ffederasiwn Pear Tree, Caerdydd
- Ysgol Gynradd Coryton
- Ysgol Gynradd Tongwynlais

Ffederasiwn Llechyfedach a'r Tymbl, Sir Gaerfyrddin
- Ysgol Gynradd Sirol Llechyfedach
- Ysgol Gynradd Y Tymbl

Ffederasiwn Ysgol Bryn Clwyd ac Ysgol Gellifor, Sir Ddinbych
- Ysgol Bryn Clwyd
- Ysgol Gynradd Sirol Gellifor

Ffederasiwn Y Parlwr Du, Sir y Fflint
- Ysgol Gynradd Trelogan
- Ysgol Gronant

Ffederasiwn Cysgod Y Foel, Gwynedd
- Ysgol Bro Tryweryn
- Ysgol Ffridd Y Llyn

Ffederasiwn Ysgolion yn Nyffryn Ceiriog, Wrecsam
- Ysgol Cynddelw
- Ysgol Llanarmon Dyffryn Ceiriog
- Ysgol Gynradd Sirol Pontfadog

Ffederasiwn Ysgolion Eglwysig Maelor, Wrecsam
- Ysgol Wirfoddol a Reolir Anglicanaidd Borderbrook
- Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Paul

Ffederasiwn Carno, Glantwymyn a Llanbrynmair, Powys
- Ysgol Gynradd Carno
- Ysgol Llanbrynmair
- Ysgol Glantwymyn

**Ymgynghoreion awdurdodau lleol:**

Cyngor Dinas Caerdydd
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Cyngor Sir Gâr


## Atodiad 4: Rhestr o ffederasiynau yng Nghymru

| | |
|---|---|
| **Gwynedd** | Ffederasiwn Bro Ddewi<br>Ffederasiwn Ysgolion Dyffryn Dulas Corris a Phennal<br>Ffederasiwn Pen-Y-Bryn ac Abercaseg<br>Ffederasiwn Cysgod Y Foel |
| **Conwy** | Ysgolion Ffederasiwn Capel Coed-Elan<br>Ffederasiwn Ysgolion Mochdre |
| **Sir Ddinbych** | Ffederasiwn Ysgol Caer Drewyn ac Ysgol Carrog<br>Ffederasiwn Ysgol Betws Gwerful Goch ac Ysgol Bro Elwern<br>Ffederasiwn Ysgol Bryn Clwyd ac Ysgol Gellifor |
| **Sir y Fflint** | Ffederasiwn Cwlwm*<br>Ffederasiwn Y Parlwr Du<br>Ffederasiwn Hafod |
| **Wrecsam** | Ffederasiwn Dyffryn Dyfrdwy<br>Ffederasiwn Ysgolion rhwng Ysgol Plas Coch, Wrecsam ac Ysgol Bro Alun, Gwersyllt<br>Ffederasiwn Ysgolion yn Nyffryn Ceiriog<br>Ffederasiwn Ysgolion Eglwysig Maelor |
| **Powys** | Ffederasiwn Carno, Glantwymyn a Llanbrynmair |
| **Ceredigion** | Ysgolion Cynradd Cymunedol Penrhyn-coch a Phen-llwyn |
| **Sir Benfro** | Ffederasiwn Ysgolion Cynradd Cymunedol Tafarn-sbeit a Thredemel |
| **Sir Gaerfyrddin** | Ffederasiwn Bryngwyn a Glan Y Môr*<br>Ffederasiwn Carwe, Gwynfryn a Phonthenri<br>Ffederasiwn Ysgolion Cynradd Cross Hands a Dre-fach<br>Ffederasiwn Llechyfedach a'r Tymbl<br>Ffederasiwn Ysgolion Cynradd Aber-nant, Cynwyl Elfed a Llanpumsaint |
| **Castell-nedd Port Talbot** | Ysgolion Ffederal Dyffryn Afan Uchaf* |
| **Rhondda Cynon Taf** | Ysgol Gynradd Cefn ac Ysgol Gynradd Craig Yr Hesg |
| **Merthyr Tudful** | Ffederasiwn Ysgolion Cynradd Catholig y Santes Fair a Sant Illtyd |
| **Torfaen** | Ffederasiwn Blenheim a Choed Efa |
| **Caerdydd** | Campws Dysgu'r Gorllewin*<br>Ffederasiwn Pear Tree<br>Ffederasiwn The Oaks |

*Ffederasiynau sy'n cynnwys ysgolion heblaw ysgolion cynradd yn unig

Mae'r rhestr o ffederasiynau yn gywir ar hyn o bryd. Mae mwy o ffederasiynau wrthi'n cael eu ffurfio ar hyn o bryd.

**Nifer y ffederasiynau ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru, a'u lleoliad**



# Geirfa

| | |
|---|---|
| **ADY (anghenion dysgu ychwanegol)** | Plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu, corfforol neu synhwyraidd sy'n ei gwneud yn anos iddynt ddysgu na'r rhan fwyaf o blant o'r un oedran |
| **Addysgeg** | Dull ac arfer addysgu |
| **Arfer yn canolbwyntio ar y plentyn** | Ffyrdd o addysgu a thrin plant lle mae'r prif ffocws ar anghenion a dymuniadau'r plentyn |
| **CPA** | Cynllunio, paratoi ac asesu. Yr amser a neilltuir ar gyfer athrawon yn ystod eu diwrnod addysgu amserlenedig i'w galluogi i ymgymryd â gweithgareddau cynllunio, paratoi ac asesu. |
| **Dysgu proffesiynol** | Mae dysgu proffesiynol yn derm generig ar gyfer y gweithgareddau y mae gweithwyr addysg proffesiynol yn ymgymryd â nhw i sicrhau bod eu harfer yn cael ei llywio'n feirniadol ac yn gyfoes. Gall gynnwys mynychu digwyddiadau hyfforddi ac arsylwi a myfyrio ar arfer effeithiol eu cydweithwyr. |
| **Hwb** | Casgliad o offer ac adnoddau digidol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i'r holl ysgolion i gefnogi dysgu ac addysgu |
| **Pennaeth gweithredol** | Pennaeth sy'n arwain dwy ysgol neu fwy |
| **Pontio** | Y broses pan fydd disgyblion yn symud o un sector o'u haddysg i'r nesaf, er enghraifft o'r cyfnod sylfaen i gyfnod allweddol 2, neu gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 3 |
| **Proses ffedereiddio** | Cytundeb ffurfiol a chyfreithiol yw Ffedereiddio yng Nghymru pan fydd rhwng dwy a chwech o ysgolion yn rhannu trefniadau llywodraethu ac mae ganddynt un corff llywodraethol. Gall ffederasiynau gynnwys cyfuniad o ysgolion a gynhelir sydd naill ai'n ysgolion meithrin, cynradd, arbennig neu uwchradd. |
| **Rheoli matrics** | Yr arfer o reoli elfennau o waith ysgol gyda mwy nag un llinell adrodd |

**Systemau hunanwella** System gwella ysgolion sy'n cael ei harwain gan ysgolion a'r ymarferwyr eu hunain

**Ysgol wirfoddol a gynorthwyir** Ysgol a ariennir gan y wladwriaeth lle mae sefydliad neu ymddiriedolaeth (enwad Cristnogol fel arfer) yn cyfrannu at gostau adeiladu ac yn dylanwadu'n sylweddol ar y modd y caiff yr ysgol ei rhedeg

**Ysgol wirfoddol a reolir** Ysgol a ariennir gan y wladwriaeth lle mae sefydliad neu ymddiriedolaeth (enwad Cristnogol fel arfer) yn cael rhywfaint o ddylanwad ffurfiol ar y modd y caiff yr ysgol ei rhedeg

## Niferoedd – meintiau a chyfrannau

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

# Cyfeiriadau

Aiston, S., Rudd, P. ac O'Donnell, L. (2002). *School Partnerships in Action: A Case Study of West Sussex Specialist Schools*. Slough: National Foundation for Educational Research. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.nfer.ac.uk/media/1476/91152.pdf [Defnyddiwyd 19 Rhagfyr 2018]

Armstrong, P. (2015) *Effective school partnerships and collaboration for school improvement: a review of the evidence.* London: Department for Education. [Ar-lein]. Ar gael o: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/467855/DFE-RR466_-_School_improvement_effective_school_partnerships.pdf [Defnyddiwyd 19 Rhagfyr 2018]

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2014) *Rheoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2014*. Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://www.legislation.gov.uk/wsi/2014/1132/contents/made [Defnyddiwyd 20 Rhagfyr 2018]

Chapman, C. a Muijs, D. (2013) Does school-to-school collaboration promote school improvement? A study of the impact of school federations on student outcomes. [Ar-lein]. *School Effectiveness and School Improvement,* **25** (3), 351–393. Ar gael o: https://www.researchgate.net/publication/264244665_Does_school-to-school_collaboration_promote_school_improvement_A_study_of_the_impact_of_school_federations_on_school_outcomes [Defnyddiwyd 20 Rhagfyr 2018]

Chapman, C., Muijs, D. a McAllister, J. (2011) *A study of the impact of school federation on student outcomes*. Nottingham: National College for School Leadership. [Ar-lein]. Ar gael o: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/331052/the-impact-of-school-federation-on-student-outcomes.pdf [Defnyddiwyd 21 Rhagfyr 2018]

Estyn (2015) *Cymorth a Chydweithio rhwng Ysgolion.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.gov.wales/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Cymorth_a_chydweithio_rhwng_ysgolion_-_Mehefin_2015.pdf [Defnyddiwyd 3 Mehefin 2019]

Hadfield, M. ac Ainscow, M. (2018) Inside a self-improving school system: Collaboration, competition and transition. [Ar-lein]. *Journal of educational change*, **19** (4), 441–462. Ar gael o: https://link.springer.com/article/10.1007/s10833-018-9330-7 [Defnyddiwyd 21 Rhagfyr 2018]

Hill, R. (2013) *Adolygiad o ddarparu gwasanaethau addysg yng Nghymru yn y dyfodol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://beta.gov.wales/sites/default/files/consultations/2018-01/130621-delivery-of-education-report-en.pdf [Defnyddiwyd 20 Rhagfyr 2018]

Lindsay, G., Muijs, D., Harris, A., Chapman, C., Arweck, E. a Goodall, J. (2007) *School Federations Pilot Study: 2003–2007.* Nottingham: Department for Children, Schools and Families. [Ar-lein]. Ar gael o: https://dera.ioe.ac.uk/7911/1/dcsf-rr015v2.pdf [Defnyddiwyd 21 Rhagfyr 2018]

Llywodraeth Cymru (2014) *Proses ffedereiddio ysgolion a gynhelir yng Nghymru: Canllawiau ar gyfer cyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/proses-ffedereiddio-ysgolion-gynhelir-canllawiau-ar-gyfer-cyrff-llywodraethu-ac-awdurdodau-lleol?_ga=2.94879772.1082246566.1561367410-1696243265.1547551928 [Defnyddiwyd 20 Rhagfyr 2018]

Llywodraeth Cymru (2018) *Cynllun gweithredu addysg wledig*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-10/cynllun-gweithredu-addysg-wledig_0.pdf [Defnyddiwyd 24 Ionawr 2019]

Muijs, D. (2015) Improving schools through collaboration: a mixed methods study of school-to-school partnerships in the primary sector. [Ar-lein]. *Oxford Review of Education,* **41** (5), 563–586. Ar gael o: http://search.ebscohost.com/login.aspx?direct=true&db=ehh&AN=110427580&site=ehost-live [Defnyddiwyd 21 Rhagfyr 2018]

Ofsted (2011) *Leadership of more than one school: An evaluation of the impact of federated schools.* London: Ofsted. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.gov.uk/government/publications/leadership-of-more-than-one-school [Defnyddiwyd 21 Rhagfyr 2018]